Cyhoeddir y ddogfen hon yn Gymraeg ac yn Saesneg.

# Côd Ansawdd y DU ar gyfer Addysg Uwch

## Dogfen ymgynghori

### Dogfen ymgynghori, Ebrill 2024

Mae'r ddogfen hon yn rhoi rhagor o wybodaeth am yr ymgynghoriad sector cyfredol ar ailddatblygiad Côd Ansawdd y DU sydd i'w gyhoeddi ym mis Mehefin 2024. Mae QAA yn casglu adborth gan randdeiliaid trwy arolwg ar-lein, a fydd yn agored rhwng 8fed Ebrill a 17eg Mai 2024, gan adeiladu ar weithgareddau ymgysylltu a gynhaliwyd gyda'r sector ers mis Hydref 2022.

Mae'r Côd Ansawdd wedi'i ailddatblygu, ynghyd â manylion am sut i ymateb i'r ymgynghoriad, i'w gweld ar ein gwefan.

Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau am ailddatblygiad y Côd Ansawdd, cysylltwch â: membership@qaa.ac.uk

## Cynnwys

**Ynglŷn â Chôd Ansawdd y DU ar gyfer Addysg Uwch ........ 1**
**Ailddatblygu'r Côd Ansawdd ........ 2**
**Adborth o weithgareddau ymgysylltu blaenorol ........ 2**
Cam 1: Sefydlu'r cwmpas ar gyfer ailddatblygiad a'r strwythur ........ 2
Cam 2: Datblygu cynnwys ........ 4
Cam 3: Ymgynghori a chyhoeddi ........ 7
**Y gwahaniaethau rhwng y Côd Ansawdd presennol a'r fersiwn arfaethedig ........ 8**
**Am yr ymgynghoriad hwn ........ 10**
**Sut i ymateb i'r ymgynghoriad hwn ........ 10**
**Y camau nesaf ........ 10**
**Gweithredu ........ 10**
**Yr arolwg ymgynghorol ar-lein ........ 11**

## Ynglŷn â QAA

Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (QAA) yw corff annibynnol, arbenigol y DU ar gyfer addysg drydyddol.. Mae darparwyr a chyrff rheoleiddio yn ymddiried ynom i gynnal a gwella ansawdd a safonau. Rydym yn sicrhau bod myfyrwyr yn cymryd rhan ym mhob agwedd ar ein gwaith.

Rydym yn gweithio'n agos gyda'n haelodau a chyrff sector i sicrhau bod cyfeirbwyntiau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol ar gyfer ansawdd a safonau academaidd yn gyfredol, yn berthnasol ac yn effeithiol.

# Ynglŷn â Chôd Ansawdd y DU ar gyfer Addysg Uwch

Mae Côd Ansawdd y DU ar gyfer Addysg Uwch (Côd Ansawdd) wedi bod yn gonglfaen i system addysg uwch y DU ers ei sefydlu fel y 'seilwaith academaidd' yn y 1990au.
Mae ei fformat wedi newid dros amser, ond mae bob amser wedi mynegi'r egwyddorion sylfaenol y cytunwyd arnynt gan y sector ar gyfer safonau academaidd ac ansawdd addysg uwch ledled y DU. Yn y broses ailddatblygu bresennol, ein bwriad fu creu Côd Ansawdd y gellir ei ddefnyddio mewn lleoliadau trydyddol. Bydd yn parhau i weithredu fel sail ar gyfer sicrhau safonau ac ansawdd, waeth beth fo maint y darparydd neu'r cyd-destun y mae'n gweithredu ynddo.

## Gwerth y Côd Ansawdd

Mae'r Côd Ansawdd yn diogelu buddiannau'r cyhoedd a myfyrwyr, ac yn hyrwyddo enw da byd-eang addysg uwch y DU am ansawdd. Mae'n cael ei arwain gan y sector wrth wynebu'r dyfodol, ac mae'n hygyrch i sector addysg uwch y DU yn ei gyfanrwydd ac, yn gynyddol, dylid gallu ei ddefnyddio mewn lleoliadau trydyddol. Mae'n pwysleisio rôl darparwyr wrth sicrhau ansawdd y profiad y maent yn ei gynnig i fyfyrwyr, cefnogi ymgysylltiad myfyrwyr, a sicrhau bod cyfeirnodi allanol yn cael ei ddefnyddio i gynorthwyo ag uniondeb dyfarniadau ac ansawdd y ddarpariaeth. Mae'r Côd Ansawdd yn galluogi darparwyr i ddeall yr hyn a ddisgwylir ganddynt a'r hyn y gallant ei ddisgwyl gan ei gilydd.

Fel dogfen gyfeirio dan arweiniad y sector, mae'r Côd Ansawdd yn ymgorffori'r dull cydweithredol sy'n sail i addysg drydyddol y DU. Mae ymgysylltiad gan y sector wedi bod yn amhrisiadwy wrth ddrafftio'r fersiwn hon o'r Côd Ansawdd, a bydd hynny'n parhau wrth ddatblygu'r Cyngor a'r Canllawiau sylfaenol.

## Fersiwn gyfredol y Côd Ansawdd

Mae'r fersiwn gyfredol (a gyhoeddwyd gyntaf yn 2018) yn cynnwys pedwar Disgwyliad a chyfres o arferion Craidd a Chyffredin. Mae manylion ymarferol sut y gallai darparwyr fodloni'r Disgwyliadau a'r Arferion hynny i'w gweld mewn 12 o ddogfennau Cyngor ac Arweiniad ategol, nad ydynt yn rhan ffurfiol o'r Côd Ansawdd.



# Ailddatblygu'r Côd Ansawdd

Mae QAA wedi ymrwymo i'r Côd Ansawdd barhau i fod yn ddogfen dan arweiniad y sector ac mae wedi dilyn ymagwedd ymgynghorol at ei ailddatblygu.

Yng Ngorffennaf 2022, cytunodd QAA â'r Cyngor Ansawdd ar gyfer AU y DU ('y Cyngor Ansawdd', a elwid gynt yn Bwyllgor Sefydlog y DU ar gyfer Asesu Ansawdd, a oedd yn cyd-berchen ar hawlfraint Côd Ansawdd 2018) i gynnal Sgwrs ar draws holl sector y DU am gwmpas a strwythur y Côd Ansawdd yn y dyfodol.

Roedd hyn yn angenrheidiol oherwydd newidiadau yn strwythurau rheoleiddiol addysg uwch ar draws y DU a chyflwyno ymagwedd drydyddol yng Nghymru a'r Alban. Roedd hefyd yn cynnig cyfle i adolygu ac ystyried cyfeiriad, strwythur, cynnwys a diwyg y Côd Ansawdd i sicrhau ei fod yn parhau i gael ei werthfawr a'i fod yn ddefnyddiol ar draws y DU, yn ogystal â chefnogi enw da rhyngwladol addysg uwch y DU.

# Adborth o weithgareddau ymgysylltu blaenorol

## Cam 1: Sefydlu'r cwmpas ar gyfer ailddatblygiad a'r strwythur

Dechreuodd ymgysylltu â'r sector yn ystod hydref 2022 trwy sgyrsiau â'n haelodau a chyrff eraill yn y sector er mwyn ddeall yr angen i'r Côd Ansawdd esblygu o ran cwmpas, strwythur a chynnwys.

Cynhaliwyd cyfres o drafodaethau bwrdd-crwn yn Ionawr, Chwefror a Mawrth 2023, trwy ddigwyddiadau a rhwydweithiau oedd yn bodoli eisoes ac yn uniongyrchol gyda chyrff a grwpiau eraill yn y sector. Mae dadansoddiad llawn ar gael ar ein gwefan - Adolygiad o Gôd Ansawdd y DU 2023-24 - crynodeb o adborth hyd yma - a rhoddir crynodeb o'r pwyntiau allweddol isod.

**Pwyntiau cyffredinol**

- Egwyddorion Gwelliant - ble mae gwelliant yn sefyll a sut mae'n cael ei fynegi
- Mae angen iddo fod yn berthnasol ledled y DU
- Mae elfen Graidd/Rhagarweiniol gryno yn ddefnyddiol.
- Defnyddir y Cyngor a Chanllawiau yn amlach na'r adran Graidd/Rhagarweiniol ar draws darparwyr mwy sefydledig.

**Bylchau yn y Côd Ansawdd/Cyngor a Chanllawiau cyfredol**

- Cyfrifoldebau deuol partneriaid mewn trefniadau partneriaeth
- Pwysigrwydd gweithio gyda myfyrwyr fel partneriaid
- Trosglwyddiadau myfyrwyr.
- Uniondeb academaidd
- Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol

**Strwythur a Chynnwys**

- Mae elfen Graidd/Rhagarweiniol gryno yn ddefnyddiol.
- Mae llywio rhwng adrannau'r Côd Ansawdd yn anodd ar hyn o bryd.
- Mae'r disgwyliadau presennol yn rhy eang a chyffredinol
- Nid oes angen gwahanu arferion Craidd a Chyffredin
- Dylid plethu ymgysylltiad myfyrwyr drwyddi draw.


**Modelau Cysyniadol**

- Ychydig iawn o awydd sydd am ddim newid, ond cynghorir gofal ynghylch maint y newid.
- Croesewir aliniad clir ond ymhlyg â'r Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd (ESG) fel fframwaith trosfwaol a ddeellir yn eang yn y DU a thu hwnt.
- Y cysyniad o egwyddorion dan arweiniad y sector/y cytunwyd arnynt gan y sector - mynegiant a rennir o ansawdd a safonau.
- Pwysigrwydd bod yn eglur ynghylch gwerth a pherthnasedd y Côd Ansawdd ar draws y DU.
- Mae modelau yn cynnig cyngor a llywio cliriach.

## Sefydlu strwythur

Gan adeiladu ar yr adborth a dderbyniwyd yn ystod y sesiynau cwmpasu, gofynnodd gweithdy hanner-diwrnod yn nigwyddiad Rhwydwaith Aelodau QAA ym mis Ebrill 2023 a fersiwn ar-lein o'r gweithdy a gynhaliwyd ym mis Mai 2023 am adborth ar strwythur diwygiedig ar gyfer y Côd Ansawdd, gyda thri model yn cael eu cyflwyno. Fe wnaethom hefyd wahodd sylwadau ar ddatblygiad y Cyngor a'r Canllawiau sylfaenol (a fydd yn cael sylw mewn ymgynghoriad yn y dyfodol).

Arweiniodd y gweithdai hyn at ddatblygu'r model canlynol:




Rhannwyd yr Egwyddorion y Cytunwyd arnynt gan y Sector a'r Arferion Allweddol sy'n perthyn iddynt yn dri maes craidd: Ymagwedd strategol, Gwerthuso ansawdd a safonau, a Gweithredu'r dull o wella ansawdd a safonau.

## Cam 2: Datblygu cynnwys

### Cyfres yr Haf: Digwyddiadau trafod 'Gwneud Pethau'n Iawn'

Roedd bod â model y cytunwyd arno'n ein galluogi i symud ymlaen â datblygu cynnwys ar gyfer y Côd Ansawdd. Gan ddefnyddio'r adborth a gasglwyd hyd yma, datblygwyd yr Egwyddorion y Cytunwyd arnynt gan y Sector a'r Arferion Allweddol a'u rhannu â'r sector i'w trafod mewn cyfres o ddigwyddiadau ym mis Awst a Medi 2023.

Ymunodd nifer dda o gydweithwyr yn y sector o bedair gwlad y DU â'r digwyddiadau hyn (gweler isod). Roedd y sesiynau'n canolbwyntio ar Egwyddorion penodol yn ogystal â chynnig cyfle i roi sylwadau ar y drafft o'r Côd Ansawdd yn ei gyfanrwydd.

| Lloegr | Yr Alban | Cymru | Gogledd Iwerddon | Cyrff y sector |
|---|---|---|---|---|
| 334 o gyfranogwyr | 46 o gyfranogwyr | 16 o gyfranogwyr | 10 o gyfranogwyr | 28 o gyfranogwyr |

### Cyfres yr Haf: - meysydd adborth allweddol

Darparodd y gyfres hon o ddigwyddiadau adborth manwl ar y drafft cyntaf o'r Egwyddorion y Cytunwyd arnynt gan y Sector a'r Arferion Allweddol. Elfennau allweddol yr adborth oedd:

**Aliniad â'r Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd (ESG)**

Roedd y cyfranogwyr yn teimlo'n gyffredinol bod y cynnig yn alinio'n dda â'r ESG.

**Egwyddorion Unigol**

Roedd y cyfranogwyr yn meddwl bod yr Egwyddorion yn cynrychioli'r hyn oedd yn bwysig i addysg uwch yn y DU. Roedd galwad ar draws y rhan fwyaf o'r Egwyddorion i symleiddio'r geiriad a sicrhau eglurder er mwyn galluogi sefydliadau i ddeall yr hyn a ddisgwylir ganddynt. Roedd y cyfranogwyr yn gefnogol i'r canlynol:

- y pwyslais cynyddol ar ymgysylltiad a phartneriaeth myfyrwyr
- yr egwyddorion newydd ar arweinyddiaeth strategol, adnoddau a defnyddio data
- cynnwys rhestr termau allweddol
- strwythur arfaethedig y Côd Ansawdd newydd

**Gwelliant**

Credai'r rhan fwyaf o'r cyfranogwyr fod yr Egwyddorion a'r Arferion Allweddol yn cynnwys ffocws ar welliant y gellid canolbwyntio arno mewn mwy o fanylder yn y Cyngor a'r Canllawiau sylfaenol.

Roedd y farn yn rhanedig ynghylch a oedd yr Egwyddorion fel y'u drafftiwyd yn cynnig digon o ymestyniad i'r sector. Roedd llawer yn meddwl mai mater i ddarparwyr yn unigol oedd adeiladu ar yr Egwyddorion a nodi gwelliant yn seiliedig ar eu cyd-destun a cham datblygiad. Roedd darparwyr eraill yn ystyried bod yr Egwyddorion yn golygu her.

**Trydyddol a thrawsnewid**

Mynegwyd safbwyntiau cymysg ar sut y gellid ymestyn y Côd Ansawdd i gynnwys ffocws trydyddol.
Roedd cefnogaeth i ffocws trydyddol a oedd yn hwyluso trosglwyddiadau myfyrwyr, ond roedd llai o eglurder ynghylch gwerth y Côd Ansawdd o ran bod yn berthnasol i lefelau astudio heblaw addysg uwch. Roedd yna gydnabyddiaeth ei bod yn debygol y byddai safbwyntiau gwahanol ar draws gwledydd y DU.

**Cydraddoldeb, amrywioldeb a chynhwysiant (EDI)**

Ystyriwyd y dylai EDI gael mwy o amlygrwydd yn yr Egwyddorion ac o bosibl yn y testun rhagarweiniol.

**Dysgu, addysgu ac asesu**

Roedd cais cryf i gynnwys Egwyddor sy'n ymdrin yn uniongyrchol ag addysgu, dysgu ac asesu.

Mewn ymateb i'r adborth o gyfres yr Haf o weithdai, gwnaeth QAA ddiwygiadau i'r drafft o'r Côd Ansawdd gan gynnwys ychwanegu Egwyddor benodol yn canolbwyntio ar addysgu, dysgu ac asesu. Unwaith eto, cyflwynwyd Côd Ansawdd arfaethedig diwygiedig i'r sector i'w drafod mewn pum digwyddiad ar-lein ym mis Tachwedd a Rhagfyr 2023. Yn ogystal, cynhaliwyd sesiynau llai gyda nifer o gyrff a grwpiau gan gynnwys Rhwydwaith Derbyniadau *GuildHE*, Rhwydwaith Ansawdd Myfyrwyr QAA, Rhwydwaith Strategaeth Ansawdd, Rhwydwaith Datblygu Colegau, Trefniadau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch yr Alban, Pwyllgor Dysgu ac Addysgu Prifysgolion yr Alban, Prifysgolion Cymru, a Rhwydwaith Strategaeth Cymru.

## Digwyddiadau adborth - Tachwedd a Rhagfyr 2023

Cymerodd dros 250 o bobl o bob rhan o'r DU ran yn y digwyddiadau adborth.

| **Lloegr** | **Yr Alban** | **Cymru** | **Gogledd Iwerddon** | **Cyrff y sector** |
|---|---|---|---|---|
| 159 o gyfranogwyr | 34 o gyfranogwyr | 14 o gyfranogwyr | 4 o gyfranogwyr | 16 o gyfranogwyr |

## Arolwg - Rhagfyr 2023 i Ionawr 2024

Yn ogystal â'r digwyddiadau a'r trafodaethau, cynhaliom arolwg ar-lein i gasglu adborth ysgrifenedig. Cawsom 30 o ymatebion unigol gan 28 o ddarparwyr.

| **Lloegr** | **Yr Alban** | **Cymru** | **Gogledd Iwerddon** | **wedi'u lleoli yn y DU** |
|---|---|---|---|---|
| 13 o ddarparwyr | 6 o ddarparwyr | 2 o ddarparwyr | 4 o ddarparwyr | 3 o ddarparwyr |

Dywedodd yr ymatebwyr wrthym sut y maent fel arfer yn ymwneud â'r Côd Ansawdd, ac roedd yr adborth hwn yn sail i newidiadau a wnaethom yn yr adran '**Sut mae'r Côd Ansawdd yn cael ei ddefnyddio**'.

Rhoddir crynodeb o’r adborth o ddigwyddiadau’r gaeaf, trafodaethau a’r arolwg yn y tabl canlynol:

**Adborth ar yr Egwyddorion y Cytunwyd arnynt gan ar y Sector**

Ar y cyfan, ystyriwyd bod yr Egwyddorion yn adlewyrchu'n glir yr hyn sy'n bwysig yn addysg uwch y DU, ac ystyriwyd eu bod yn cael eu mynegi ar lefel ddigon uchel ar gyfer anghenion gweithredol gwahanol ddarparwyr.

Gofynnodd rhai am eglurhad ynghylch beth mae'n ei olygu i weithio gyda myfyrwyr fel partneriaid. Mynegodd eraill yr angen i fod yn realistig ynghylch tensiynau cynhenid yn y lefel hon o ymgysylltu.

Roedd angen diwygio mwy sylweddol ar egwyddor 11 - yn ymwneud â dysgu, addysgu ac asesu. Ar y cyfan, roedd y sylwadau'n gadarnhaol, gan ddangos bod yr Egwyddor yn cynrychioli'r ystyriaethau ansawdd sydd i'w gwneud yn y maes hwn.

Roedd sylwadau ehangach yn cynnwys cais am fwy o bwyslais ar rôl a chyfraniad arbenigwyr allanol, megis arholwyr allanol, ac eglurhad o 'ddulliau cyflwyno hyblyg' i sicrhau na fyddai myfyrwyr yn dehongli hyn fel gofyniad i gynnig darpariaeth hybrid ym mhob achos.

Roedd sylwadau ychwanegol yn galw am symleiddio ac egluro geiriad yr Egwyddorion.

**Arferion Allweddol**

Ystyriwyd bod yr Arferion Allweddol yn darparu fframwaith clir a phwyslais ar welliant, oedd i’w groesawu. Roedd rhai sylwadau'n ffafrio esboniad mwy cynhwysfawr o beth yw’r 'waelodlin'.

Roedd yn ymddangos bod pwrpas yr Arferion Allweddol yn cael ei ddeall yn dda ac roedd ymatebwyr yn cydnabod y byddai'r Cyngor a Chanllawiau wedi'u hailgynllunio, pan fyddant ar gael, yn cynorthwyo â gweithredu'r Egwyddorion yn ymarferol.

**Trydyddol**

Roedd cais am egluro’r term 'trydyddol' a chyfeirio ato'n ehangach yn y ddogfen (y tu hwnt i'r rhestr termau) o ystyried bod fframweithiau trydyddol ar waith yn rhai o wledydd y DU.

Nodwyd bod her o ran cynnwys adran 'cwmpas' yn y ddogfen o ystyried y fframweithiau rheoleiddio amrywiol ar draws y DU. Fodd bynnag, roedd yna gydnabyddiaeth o ba mor ddefnyddiol fyddai adran o'r fath (a oedd wedi'i chynnwys yn fersiwn 2012 o'r Côd Ansawdd).

**Ymchwil**

Gofynnodd rhai ymatebwyr am fwy o bwyslais ar ymchwil, o ran graddau ymchwil ac o ran mynegi sut mae ymchwil yn llywio addysgu, dysgu ac asesu.

**Gwelliant**

Roedd barn gymysg ynghylch a oedd gwelliant wedi'i fynegi'n ddigonol yn y Côd Ansawdd arfaethedig.

Roedd cefnogaeth i wneud gwelliant yn fwy amlwg, ac i’w gynnwys yn benodol yn y rhestr termau. Gwnaed cais tebyg am ddiffinio 'ansawdd' yn y rhestr termau.

**Cyngor a Chanllawiau**

Roedd cydnabyddiaeth y byddai'r cymorth ymarferol ar gyfer cyflawni’r Egwyddorion a'r Arferion Allweddol yn cael ei ddarparu yn y Cyngor a Chanllawiau diwygiedig.

Roedd croeso mawr i alinio’r Cyngor a Chanllawiau yn uniongyrchol â’r Egwyddorion.

## Cam 3: Ymgynghori a chyhoeddi

Roedd yr adborth a gynigiwyd ar draws gweithgareddau Cam 2 yn adeiladol a defnyddiol, ac fe'i defnyddiwyd i fireinio cynnwys y drafft ymgynghori cyfredol. Mae'r adborth wedi'i grynhoi fesul thema yn y ddogfen hon ac mae hefyd ar gael ar dudalen Ailddatblygu'r Côd Ansawdd ein gwefan. Nid yw sylwadau sy'n ymwneud â’r manylion lleiaf wedi'u cynnwys yma, ond maent wedi'u cymryd i ystyriaeth.

Fel yr ydym wedi pwysleisio, rydym wedi bod yn gweithio ar y cyd â'r sector.
Yr ymgynghoriad hwn yw’r cyfle olaf i ymwneud â datblygiad y Côd Ansawdd cyn cyhoeddi fersiwn 2024. Byddwn yn ystyried yr holl ymatebion i’r ymgynghoriad hwn yn ofalus, ac rydym yn bwriadu cyhoeddi’r Côd Ansawdd terfynol ar 27ain Mehefin 2024.

Yn ogystal, yn ystod y cam hwn byddwn yn creu amserlen ar gyfer ailddatblygu'r Cyngor a Chanllawiau sy'n cyd-fynd â’r Côd Ansawdd. Byddwn yn agor galwad i’n haelodau am wirfoddolwyr er mwyn i adrannau cyntaf y Cyngor a Chanllawiau gael eu hailddatblygu, gyda’r gwaith yn dechrau ym mis Medi 2024. Er mwyn gwella llywio ar draws y Côd Ansawdd, bydd y Cyngor a Chanllawiau’n alinio’n uniongyrchol â’r Egwyddorion y Cytunwyd arnynt gan y Sector.

# Y gwahaniaethau rhwng y Côd Ansawdd presennol a'r fersiwn arfaethedig

Mae'r Côd Ansawdd presennol, a gyhoeddwyd yn wreiddiol yn 2018 gyda fersiwn wedi'i diweddaru yn 2023, yn cynnwys pedwar Disgwyliad lefel uchel ar gyfer Safonau ac Ansawdd, wedi'u hategu gan arferion Craidd a Chyffredin. Roedd y dull hwn yn cynrychioli newid sylweddol o'r fersiwn a ddisodlwyd, lle'r oedd y Côd Ansawdd yn cynnwys cyfres o Benodau, gyda chanllawiau sylweddol yn gynwysedig ym mhob un. Roedd Côd Ansawdd 2018 yn ffitio i mewn i dabl ar un dudalen A4.

## Côd Ansawdd presennol y DU

| Y disgwyliadau o ran safonau | | Y disgwyliadau o ran ansawdd | |
|---|---|---|---|
| Mae safonau academaidd y cyrsiau'n bodloni gofynion y fframwaith cymwysterau cenedlaethol perthnasol.<br>Mae gwerth y cymwysterau a ddyfernir ac a roddir i'r myfyrwyr pan fyddent yn cymhwyso a thros amser yn cyfateb â'r safonau a gydnabyddir gan y sector. | | Mae'r cyrsiau wedi'u llunio'n dda, ac maent yn rhoi profiad academaidd o safon uchel i'r myfyrwyr i gyd, ac yn caniatáu i gyflawniad y myfyriwr gael ei asesu mewn ffordd ddibynadwy.<br>O'r cam derbyn hyd y graddio, mae'r myfyrwyr i gyd yn derbyn y gefnogaeth y maent ei hangen i lwyddo ym maes addysg uwch ac i elwa o'r addysg uwch. | |
| **Yr Arferion Craidd** | **Yr Arferion Cyffredin** | **Yr Arferion Craidd** | **Yr Arferion Cyffredin** |
| Mae'r darparwr yn sicrhau bod y safonau trothwy ar gyfer ei gymwysterau'n gyson â'r fframweithiau cymwysterau cenedlaethol sy'n berthnasol iddynt.<br>Mae'r darparwr yn sicrhau bod y myfyrwyr y dyfernir cymwysterau iddynt yn cael y cyfle i gyrraedd safonau sy'n uwch na'r lefel trothwy sy'n cymharu'n rhesymol â'r rheiny a gyflawnir gan fyfyrwyr darparwyr eraill yn y DU.<br>Lle mae'r darparwr yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, mae ganddo drefniadau effeithiol i sicrhau bod safonau ei ddyfarniadau'n sicr ac yn ddibynadwy, lle bynnag neu sut bynnag y darperir y cyrsiau neu pwy bynnag sy'n eu darparu.<br>Mae'r darparwr yn defnyddio arbenigedd allanol, ac yn defnyddio prosesau ar gyfer asesu a dosbarthu sy'n ddibynadwy, yn deg ac yn eglur. | Mae'r darparwr yn adolygu ei Arferion Craidd sy'n ymwneud â safonau'n rheolaidd, ac mae'n defnyddio'r canlyniadau i ysgogi datblygiad a gwelliant. | Mae gan y darparwr system dderbyn sy'n deg, yn ddibynadwy ac yn gynhwysol.<br>Mae'r darparwr yn llunio a/neu'n darparu cyrsiau o safon uchel.<br>Mae gan y darparwr nifer ddigonol o staff sydd â'r cymwysterau a'r sgiliau priodol i ddarparu profiad academaidd o safon uchel.<br>Mae gan y darparwr gyfleusterau, adnoddau dysgu a gwasanaethau cefnogi myfyrwyr sy'n briodol ac yn ddigonol i ddarparu profiad academaidd o safon uchel.<br>Mae'r darparwr yn cymryd camau i gynnwys ei fyfyrwyr, yn unigol ac ar y cyd, yn y prosesau o sicrhau a gwella ansawdd eu profiad addysgol.<br>Mae gan y darparwr weithdrefnau teg ac eglur sydd ar gael i'r myfyrwyr i gyd, ar gyfer ymdrin â chwynion ac apeliadau.<br>Lle mae'r darparwr yn cynnig graddau ymchwil, mae'n eu darparu mewn amgylcheddau ymchwil sy'n addas ac yn gefnogol.<br>Lle mae'r darparwr yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, mae ganddo drefniadau effeithiol i sicrhau bod y profiad academaidd o safon uchel, lle bynnag neu sut bynnag y darperir y cyrsiau neu pwy bynnag sy'n eu darparu.<br>Mae'r darparwr yn cefnogi ei fyfyrwyr i gyd i gael canlyniadau llwyddiannus ar lefelau academaidd a phroffesiynol. | Mae'r darparwr yn adolygu ei Arferion Craidd sy'n ymwneud ag ansawdd yn rheolaidd, ac mae'n defnyddio'r canlyniadau i ysgogi datblygiad a gwelliant.<br>Mae dulliau'r darparwr o reoli ansawdd yn cynnwys defnyddio arbenigedd allanol.<br>Mae'r darparwr yn cynnwys ei fyfyrwyr, yn unigol ac ar y cyd, yn y prosesau o ddatblygu, sicrhau a gwella ansawdd eu profiad addysgol. |

Mae drafft o fersiwn 2024 o'r Côd Ansawdd, a ddangoswyd gyntaf i'r sector ym mis Tachwedd 2023, yn cynnwys 12 o Egwyddorion y Cytunwyd arnynt gan y Sector sy'n amlinellu'r nodweddion sy'n hanfodol i sicrhau safonau academaidd a chynnig profiad dysgu o ansawdd uchel i fyfyrwyr mewn addysg drydyddol yn y DU. Mae'r Egwyddorion wedi'u trefnu'n dri maes cyffredinol, fel y mynegir yn y tabl canlynol:

| Ymagwedd strategol | Gwerthuso ansawdd a safonau | Gweithredu'r ymagwedd at wella ansawdd a safonau |
|---|---|---|
| Egwyddor 1: Mabwysiadu ymagwedd strategol at reoli ansawdd a safonau | Egwyddor 4: Defnyddio data i lywio a gwerthuso ansawdd | Egwyddor 7: Cynllunio, datblygu, cymeradwyo ac addasu rhaglenni |
| Egwyddor 2: Ymwneud â myfyrwyr fel partneriaid | Egwyddor 5: Monitro, gwerthuso a gwella'r ddarpariaeth | Egwyddor 8: Gweithredu partneriaethau gyda sefydliadau eraill |
| Egwyddor 3: Sicrhau adnoddau ar gyfer darparu profiad dysgu o ansawdd uchel | Egwyddor 6: Cymryd rhan mewn adolygu ac achredu ansawdd a safonau allanol | Egwyddor 9: Recriwtio, dethol a derbyn myfyrwyr |
| | | Egwyddor 10: Rhoi cefnogaeth i fyfyrwyr gyflawni eu potensial |
| | | Egwyddor 11: Dysgu, addysgu ac asesu |
| | | Egwyddor 12: Pryderon gweithredu, prosesau cwynion ac apeliadau |

Ategir yr Egwyddorion hyn gan Arferion Allweddol sy'n nodi'r ffyrdd y gall darparydd ddangos ei fod yn cadw at yr Egwyddorion y Cytunwyd Arnynt gan y Sector. Bydd Cyngor a Chanllawiau creiddiol yn cyd-fynd â'r Egwyddorion a'r Arferion Allweddol. Mae’r dyfyniad hwn o’r Côd Ansawdd yn dangos un Egwyddor o’r fath, gyda’i Arferion Allweddol islaw:

**Egwyddor 1 - Mabwysiadu ymagwedd strategol at reoli ansawdd a safonau**

Mae darparwyr yn dangos bod ganddynt ymagwedd strategol at ddiogelu safonau academaidd a sicrhau a gwella ansawdd sydd wedi'i hymgorffori ar draws y sefydliad.

**Arferion Allweddol**

a Mae safonau academaidd ac ansawdd profiad dysgu myfyrwyr yn gyfrifoldeb pob darparydd. Mae gan gyrff dyfarnu graddau gyfrifoldebau penodol am y cymwysterau a gynigir yn eu henw.

b Defnyddir ymagwedd strategol ble bynnag a sut bynnag y caiff y ddarpariaeth ei chyflwyno, ac mae wedi'i gwreiddio yn niwylliant ac arferion darparwyr.

c Mae'r ymagwedd strategol yn alinio â pholisïau ac arferion darparwyr ar gyfiawnder, cydraddoldeb, amrywioldeb a chynhwysiant ar gyfer myfyrwyr a staff.

d Mae’r dull strategol yn cael ei gyhoeddi a’i ategu gan fframwaith llywodraethiant cynhwysfawr a thryloyw sy’n cael ei fynegi’n glir ac sy’n hygyrch i staff, myfyrwyr a rhanddeiliaid allanol.

e Mae'r dull strategol yn cael ei fonitro, ei werthuso a'i wella'n rheolaidd.

f Mae arbenigedd allanol yn elfen allweddol o'r ymagwedd strategol at reoli ansawdd a safonau.

Mae manylion llawn y broses a ddilynwyd i ailddatblygu'r Côd Ansawdd ar ein gwefan.

## Am yr ymgynghoriad hwn

Gan fod i'r Côd Ansawdd statws rheoleiddiol mewn sawl rhan o'r DU, credwn fod ymgynghoriad ffurfiol yn gam terfynol priodol cyn ei gwblhau a'i gyhoeddi.

Rydym yn ceisio adborth gan yr holl randdeiliaid - yn enwedig darparwyr addysg uwch ac addysg bellach, cyrff sector, ymarferwyr ansawdd, staff academaidd, staff gwasanaethau proffesiynol, undebau/cymdeithasau myfyrwyr, a myfyrwyr.

Rydym wedi cael lefel dda o ymgysylltiad gan randdeiliaid trwy gydol y broses ailddatblygu. O ganlyniad, mae'n bosibl y bydd yr ymgynghoriad hwn yn ymdrin ag agweddau y mae rhai eisoes wedi gwneud sylwadau arnynt. Fodd bynnag, fel pwynt cyswllt olaf cyn gweithredu, rydym wedi cyflwyno darlun cyffredinol o'r newidiadau o'r fersiwn ddiwethaf a ryddhawyd gennym ar gyfer ymgynghoriad (ym mis Tachwedd 2023) a chyfle i'r rhai nad ydynt efallai wedi ymateb yn flaenorol i roi eu barn.

Mae Adrannau 3, 4 a 5 yn gofyn am adborth ar adrannau o'r Côd Ansawdd sydd wedi'u diwygio mewn ymateb i adborth a dderbyniwyd yn ystod trafodaethau ac arolwg Tachwedd/Rhagfyr 2023.

## Sut i ymateb i'r ymgynghoriad hwn

Mae'r ymgynghoriad yn cynnwys tair dogfen - y ddogfen ymgynghori hon, y drafft o'r Côd Ansawdd, ac arolwg ar-lein. Rydym yn eich cynghori i ddarllen y Côd Ansawdd a'r ddogfen ymgynghori hon cyn cwblhau'r arolwg.

Mae'r dogfennau hyn a dolen i'r arolwg ar-lein ar gael ar dudalen we ymgynghoriad y Côd Ansawdd.

Mae'r arolwg ar-lein yn cynnwys pum adran:

- Adran 1: sy'n gofyn am eich manylion
- Adran 2: sy'n cadarnhau'r dull a ddefnyddiwyd i ailddatblygu'r Côd Ansawdd
- Adran 3: sy'n gofyn am sylwadau cyffredinol ar y fersiwn newydd hon o'r Côd Ansawdd
- Adran 4: sy'n gwahodd eich barn ar yr Egwyddorion y Cytunwyd arnynt gan y Sector a'r Arferion Allweddol
- Adran 5: sy'n canolbwyntio ar dermau newydd a ychwanegwyd at y drafft o'r Rhestr Termau mewn ymateb i adborth

Gweler tudalennau 11-26 y ddogfen hon am ragor o wybodaeth am yr arolwg ar-lein.

## Y camau nesaf

Mae'r arolwg yn agor ddydd Llun 8fed Ebrill 2024 ac yn cau am 5pm ddydd Gwener 17eg Mai 2024.

Ein nod yw cyhoeddi'r Côd Ansawdd terfynol ar 27ain Mehefin 2024.

## Gweithredu

Defnyddir y Côd Ansawdd fel cyfeirnod allweddol mewn sawl dull adolygu a reolir gan QAA ac sy'n gweithredu mewn gwahanol rannau o'r DU. Bydd manylion ynghylch sut y bydd fersiwn 2024 o'r Côd Ansawdd yn cael ei roi ar waith o fewn y dulliau hynny'n cael sylw yn y llawlyfrau a chyfathrebiadau eraill, ac ar gael i ddarparwyr sy'n ymwneud â nhw.

# Yr arolwg ymgynghorol ar-lein

Mae'r arolwg ar-lein yn cynnwys pum adran, fel a ganlyn:

## Adran 1: Manylion ymatebwyr

Mae'r adran hon yn casglu manylion yr ymatebwyr. Bydd yr holl atebion a roddir yn cael eu trin yn gyfrinachol ac ni fyddant yn cael eu priodoli i unrhyw unigolyn neu sefydliad mewn unrhyw adroddiad dadansoddi a gyhoeddir. Ni fydd unrhyw ddata personol yn cael ei rannu â thrydydd parti. Bydd unrhyw ganlyniadau yr adroddir arnynt ar ôl yr arolwg ar ffurf gyfunol yn unig, ac ni fydd modd adnabod ymatebion unigol. Mae rhagor o fanylion ar gael yn ein hysbysiad preifatrwydd.

## Adran 2: Ymagwedd at ddatblygiad

**Cwestiwn 1 - A ydych chi wedi cymryd rhan mewn unrhyw un o weithgareddau ailddatblygu Côd Ansawdd y DU?**

a) Digwyddiadau ar-lein
b) Ymateb i arolwg ar-lein Gaeaf 2023-24
c) Nac ydw, rwy'n dod at yr ymgynghoriad hwn o'r newydd

## Adran 3: Sylwadau trosfwaol ar y Côd Ansawdd

### Egwyddorion y Cytunwyd arnynt gan y Sector

Un o brif amcanion y Côd Ansawdd yw mynegi egwyddorion addysg drydyddol y DU ar gyfer sicrhau safonau academaidd, yn ogystal â sicrhau a gwella ansawdd.

Mae'r Egwyddorion y Cytunwyd arnynt gan ar y Sector yn mynegi'r nodweddion sy'n hanfodol i sicrhau safonau academaidd a chynnig profiad dysgu o ansawdd uchel i fyfyrwyr. Mae'r Arferion Allweddol yn nodi ffyrdd y gall darparydd ddangos sut mae'n bodloni'r Egwyddorion. Yn y modd hwn, mae'r Côd Ansawdd yn cynnig fframwaith y gall darparwyr adeiladu eu harferion mewnol arno ac sy'n bodloni gofynion allanol.

**Cwestiwn 2 - A yw'r Egwyddorion a'r Arferion Allweddol yn cynnig fframwaith defnyddiol ar gyfer datblygu, cefnogi a gwella eich arferion ansawdd mewnol a bodloni gofynion allanol?**

### Addysg Drydyddol

Rydym wedi gofyn i'r sector trwy gydol y broses ddatblygu ynghylch ymestyn cwmpas y Côd Ansawdd y tu hwnt i addysg uwch i gynnwys addysg drydyddol. Mae hyn yn cydnabod newidiadau sy'n digwydd ar draws y DU, yn enwedig yn yr Alban a Chymru.

O ganlyniad i'r adborth hwn, rydym wedi datgan yn y cyflwyniad i Gôd Ansawdd 2024 ei fod yn berthnasol i ddarparwyr sy'n gweithio mewn lleoliad trydyddol: '*Bwriedir i'r fersiwn hon o'r Côd Ansawdd fod yn berthnasol y tu hwnt i addysg uwch gan gydnabod bod llawer o rannau o'r DU yn ceisio datblygu ymagweddau trydyddol at addysg.*.'

Rydym yn cydnabod bod sefydlu fframweithiau trydyddol a ffocws trydyddol yn ehangach yn feysydd sy'n esblygu, a byddwn yn parhau i ddatblygu ein hymagwedd wrth i ni ailddatblygu'r Cyngor ac Arweiniad a fydd yn sail i'r fersiwn hon o'r Côd Ansawdd.

**Drafft ymgynghori Ebrill 2024:**

# Rhagarweiniad

## Côd Ansawdd y DU ar gyfer Addysg Uwch

Mae Côd Ansawdd y DU ar gyfer Addysg Uwch (Côd Ansawdd) yn mynegi egwyddorion addysg uwch y DU ar gyfer sicrhau safonau academaidd er mwyn sicrhau a gwella ansawdd. Dyma'r bedwaredd fersiwn o'r Côd Ansawdd ers iddo gael ei ddatblygu gyntaf tua diwedd y 1990au. Datblygwyd y Côd Ansawdd yn wreiddiol gan, ac ar gyfer, sector addysg uwch y DU. Bwriedir i'r fersiwn hon fod yn berthnasol y tu hwnt i addysg uwch gan gydnabod bod llawer o rannau o'r DU yn ceisio datblygu ymagwedd drydyddol at ymdrin ag addysg.

**Cwestiwn 3 - A ydych yn ystyried y gellir gweithredu'r Côd Ansawdd ar draws addysg drydyddol?**

**Cwestiwn 4 - I gydnabod y ffaith y bydd y Côd Ansawdd yn cael ei ddefnyddio mewn ystod ehangach o leoliadau y tu hwnt i addysg uwch, beth yw eich barn am ei ailenwi yn:**
**'Côd Ansawdd y DU ar gyfer Addysg Drydyddol'?**

## Adran 4: Egwyddorion y cytunwyd arnynt gan y Sector ac Arferion Allweddol

### Eglurder ar yr hyn a olygir wrth Egwyddor

Gofynnodd rhai rhanddeiliaid yn y digwyddiadau ymgysylltu a'r arolwg ar ddiwedd 2023 am fwy o eglurder yn y ffordd y cafodd yr Egwyddorion y Cytunwyd arnynt gan y Sector eu gosod allan yn nrafft Tachwedd 2023. Yn benodol, gofynnwyd i ni egluro'r gwahaniaeth rhwng y teitl rhagarweiniol a chynnwys pob Egwyddor.

I fynd i'r afael â hyn, rydym wedi grwpio'r teitl a'r disgrifiad mewn blwch gyda'r nod o'i gwneud yn gliriach mai rhif, teitl a disgrifiad yr egwyddor gyda'i gilydd yw'r 'Egwyddor'. Rydym wedi dileu'r geiriad 'y Cytunwyd arnynt gan y Sector' o ddechrau pob Egwyddor, er mwyn lleihau ailadrodd. Rydym hefyd wedi mabwysiadu ymagwedd fwy cryno at deitl yr Egwyddor, fel yn yr enghraifft hon:

### Egwyddor 1 - Mabwysiadu ymagwedd strategol at reoli ansawdd a safonau

Mae darparwyr yn dangos bod ganddynt ymagwedd strategol at ddiogelu safonau academaidd, ynghyd â sicrhau a gwella ansawdd, sydd wedi'i hymgorffori ar draws y sefydliad.

**Cwestiwn 5 - A yw hwn yn fformat clir ar gyfer mynegi'r Egwyddorion y Cytunwyd arnynt gan y Sector?**

## Egwyddor 1

Newidiadau a wnaed o ddrafft Tachwedd 2023:

- Mae'r arfer sy'n ymwneud â chyfiawnder, cydraddoldeb, amrywioldeb a chynhwysiant wedi'i symud yn fwy canolog i'r rhestr o Arferion Allweddol mewn ymateb i adborth yn nodi y gellid canfod hyn fel 'ychwanegiad' os ydynt yn ymddangos ar ddiwedd y rhestr. Mae'n werth nodi nad oes hierarchaeth yn y ffordd y cyflwynir yr Arferion Allweddol. Mae'r union eiriad hefyd wedi'i addasu i alinio'n gliriach â bwriad yr Egwyddor.
- Mae Arfer Allweddol ychwanegol ar ymwneud ag arbenigedd allanol wedi'i gynnwys.

**Drafft ymgynghori Ebrill 2024:**

### Egwyddor 1 - Mabwysiadu ymagwedd strategol at reoli ansawdd a safonau

Mae darparwyr yn dangos bod ganddynt ymagwedd strategol at ddiogelu safonau academaidd a sicrhau a gwella ansawdd sydd wedi'i hymgorffori ar draws y sefydliad.

**Arferion Allweddol**

a Mae safonau academaidd ac ansawdd profiad dysgu myfyrwyr yn gyfrifoldeb pob darparydd. Mae gan gyrff dyfarnu graddau gyfrifoldebau penodol am y cymwysterau a gynigir yn eu henw.

b Defnyddir ymagwedd strategol ble bynnag a sut bynnag y caiff y ddarpariaeth ei chyflwyno, ac mae wedi'i gwreiddio yn niwylliant ac arferion darparwyr.

c Mae'r ymagwedd strategol yn alinio â pholisïau ac arferion darparwyr ar gyfiawnder, cydraddoldeb, amrywioldeb a chynhwysiant ar gyfer myfyrwyr a staff.

d Mae'r dull strategol yn cael ei gyhoeddi a'i ategu gan fframwaith llywodraethiant cynhwysfawr a thryloyw sy'n cael ei fynegi'n glir ac sy'n hygyrch i staff, myfyrwyr a rhanddeiliaid allanol.

e Mae'r dull strategol yn cael ei fonitro, ei werthuso a'i wella'n rheolaidd.

f Mae arbenigedd allanol yn elfen allweddol o'r ymagwedd strategol at reoli ansawdd a safonau.

**Cwestiwn 6 - A yw Egwyddor 1 yn ei gwneud yn glir beth a ddisgwylir gan ddarparydd?**

**Cwestiwn 7 - A yw'r Arferion Allweddol o dan Egwyddor 1 yn ei gwneud yn glir sut y gall darparydd ddangos aliniad â'r Egwyddor?**

## Egwyddor 2

Newidiadau a wnaed o ddrafft Tachwedd 2023:

- Geiriad yr Egwyddor wedi'i Symleiddio.
- Arfer c wedi'i ddiwygio i amlygu'r angen am ymgysylltu ag amrywiaeth lawn y corff myfyrwyr ac adlewyrchu pwysigrwydd cydnabod llais y myfyriwr.
- Arferion d ac e wedi'u diwygio ychydig i gydnabod nad oes gan bob darparydd sy'n defnyddio'r Côd Ansawdd gorff ffurfiol i gynrychioli myfyrwyr.
- Arfer f wedi'i symleiddio i adlewyrchu'r derminoleg gyfredol o amgylch gweithgareddau y tu hwnt i'r cwricwlwm ffurfiol.

**Drafft ymgynghori Ebrill 2024:**

### Egwyddor 2 - Cynnwys myfyrwyr fel partneriaid

Mae darparwyr yn cymryd camau bwriadol i gynnwys myfyrwyr fel partneriaid gweithredol, yn unigol ac ar y cyd, wrth gynllunio, datblygu, sicrhau a gwella profiad dysgu myfyrwyr ar bob lefel astudio ac ar draws y fframwaith llywodraethiant.

**Arferion Allweddol**

a Mae ymgysylltiad â myfyrwyr trwy weithio mewn partneriaeth yn cael ei arwain yn strategol, yn canolbwyntio ar y myfyriwr ac yn rhan annatod o ddiwylliant darparwyr.

b Mae gweithgareddau ymgysylltu a chynrychiolaeth myfyrwyr wedi'u diffinio'n glir; maent yn cael eu cyfathrebu ac mae yna adnoddau a chefnogaeth ar eu cyfer. Mae trefniadau tryloyw ar waith er mwyn i lais cyfunol myfyrwyr gael ei glywed ac ymateb iddo.

c Mae darparwyr yn dangos ymgysylltiad effeithiol â myfyrwyr, gan gynnwys y rhai sy'n cynrychioli amrywioldeb y corff myfyrwyr. Mae myfyrwyr yn deall y gwrandawyd ar eu llais ac maent yn ymwybodol o sut mae eu barn wedi effeithio ar sicrwydd a gwelliant profiad myfyrwyr.

d Mae cyfleoedd a phrosesau ymgysylltu â myfyrwyr yn rhoi ystyriaeth i nodweddion myfyrwyr ac yn ymatebol i amrywioldeb poblogaeth myfyrwyr pob darparydd. Maent yn cynnwys cyrff cynrychioli myfyrwyr, lle bo'n berthnasol.

e Mae darparwyr a chyrff cynrychioli myfyrwyr, lle mae cyrff o'r fath yn bodoli, yn cydnabod ac yn dathlu cyfraniad myfyrwyr at wella addysgu a dysgu, yn ogystal â phrofiad ehangach y myfyriwr.

f Mae myfyrwyr yn cael eu galluogi a'u hannog i gymryd rhan weithredol mewn llywodraethiant academaidd a gwella profiad ehangach y myfyriwr y tu hwnt i'r cwricwlwm ffurfiol.

**Cwestiwn 8 - A yw Egwyddor 2 yn ei gwneud yn glir beth a ddisgwylir gan ddarparydd?**

**Cwestiwn 9 - A yw'r Arferion Allweddol o dan Egwyddor 2 yn ei gwneud yn glir sut y gall darparydd ddangos aliniad â'r Egwyddor?**

## Egwyddor 3

Newidiadau a wnaed o ddrafft Tachwedd 2023:

- Aralleirio'r Egwyddor i bwysleisio'r cysylltiad rhwng adnoddau, strategaeth ac aelodaeth y corff myfyrwyr.
- Arfer a wedi'i ddiwygio er eglurder.
- Arfer c wedi'i symleiddio i'w alinio'n agosach at yr Egwyddor.
- Arfer e wedi'i aralleirio er eglurder.
- Arfer f wedi'i wella i bwysleisio pwysigrwydd amgylcheddau dysgu yn helpu â hwyluso ymdeimlad o berthyn.

**Drafft ymgynghori Ebrill 2024:**

### Egwyddor 3 - Darparu adnoddau ar gyfer profiad dysgu o ansawdd uchel

Mae darparwyr yn cynllunio, yn diogelu ac yn cynnal dysgu, technoleg, cyfleusterau ac adnoddau dynol i alluogi cyflwyno a gwella profiad dysgu hygyrch, arloesol o ansawdd uchel i fyfyrwyr sy'n unol â strategaeth y darparydd ac aelodaeth y corff myfyrwyr.

**Arferion Allweddol**

a Mae cynlluniau strategol a gweithredol, ynghyd ag adnoddau, yn alinio â thaith y myfyriwr ac wedi'u cynllunio a'u gweithredu i gynorthwyo profiad cadarnhaol i fyfyrwyr a galluogi cyflawniad myfyrwyr.

b Mae darparwyr yn sicrhau bod ganddynt adnoddau dynol, digidol a ffisegol pwrpasol a hygyrch i gefnogi a gwella'r broses o gyflwyno eu rhaglenni, yn ogystal â llesiant myfyrwyr a staff.

c Caiff adnoddau eu hadolygu a'u diweddaru yn unol â datblygiadau strategol a rhaglenni, yn ogystal â recriwtio staff a myfyrwyr. Mae hyn hefyd yn sicrhau perthnasedd i'r gweithle a'r ddisgyblaeth academaidd ehangach.

d Dyrennir adnoddau er mwyn sicrhau bod staff yn cael datblygiad proffesiynol parhaus i gynorthwyo a gwella'r broses o gyflwyno profiad dysgu arloesol o ansawdd uchel i fyfyrwyr.

e Mae prosesau a gweithgareddau i gynorthwyo â rheoli safonau academaidd a gwella ansawdd yn cael adnoddau priodol er mwyn bodloni amcanion a gofynion strategol, gweithredol a rheoleiddiol.

f Mae creu, datblygu a chynnal amgylcheddau dysgu hygyrch (ffisegol a rhithwir) yn cynnig cyfle i'r holl fyfyrwyr ymwneud â'u profiad dysgu ac yn hwyluso ymdeimlad o berthyn.

**Cwestiwn 10 - A yw Egwyddor 3 yn ei gwneud yn glir beth a ddisgwylir gan ddarparydd?**

**Cwestiwn 11 - A yw'r Arferion Allweddol o dan Egwyddor 3 yn ei gwneud yn glir sut y gall darparydd ddangos aliniad â'r Egwyddor?**

## Egwyddor 4

Newidiadau a wnaed o ddrafft Tachwedd 2023:

- Arfer a wedi'i ddiwygio i gynnwys y lefelau y defnyddir data arnynt.
- Arfer c wedi'i symleiddio er eglurder.
- Arfer e wedi'i ddiwygio i gynnwys eglurhad ynghylch yr adolygiad o gytundebau rhannu data a gofynion adrodd o fewn partneriaethau.

**Drafft ymgynghori Ebrill 2024:**

### Egwyddor 4 - Defnyddio data i lywio a gwerthuso ansawdd

Mae darparwyr yn casglu, dadansoddi a defnyddio data ansoddol a meintiol ar lefel darparydd, adran, rhaglen a modiwl i lywio penderfyniadau â'r nod o wella arferion a phrosesau sy'n ymwneud ag addysgu, dysgu a phrofiad ehangach y myfyriwr.

**Arferion Allweddol**

a Defnyddir dull cyson a chydlynol sy'n seiliedig ar dystiolaeth o gasglu, storio a rheoli data ar draws y darparydd. Mae'r darparydd yn egluro math a lefel y data a ddefnyddir (ar lefel adran, rhaglen a modiwl) a'r polisïau a'r prosesau sy'n sail i'w ddefnydd wrth gynnal safonau academaidd a sicrhau a gwella ansawdd.

b Mae staff a myfyrwyr yn ymwybodol o'r mathau o ddata a gesglir a sut y caiff ei storio a'i ddefnyddio i reoli ansawdd a safonau.

c Wrth gynllunio a gweithredu trefniadau monitro a gwerthuso, mae staff a myfyrwyr yn ystyried gofynion moesegol a diogelu data sy'n ymwneud â chasglu a chyflwyno data ar gyfer setiau data cenedlaethol, dibenion rheoleiddio, yn ogystal â monitro a gwerthuso mewnol.

d Mae staff y mae'n ofynnol iddynt gasglu, trin a dadansoddi data at ddibenion adrodd a gwella ansawdd yn derbyn hyfforddiant sy'n eu galluogi i ymgymryd â'r gweithgareddau hyn yn effeithiol.

e Mae darparwyr sydd mewn trefniadau partneriaeth (gan gynnwys y corff cynrychioli myfyrwyr, lle bo'n berthnasol) yn sicrhau bod cytundebau rhannu data a gofynion adrodd yn cael eu datgan yn glir, eu deall a'u hadolygu o bryd i'w gilydd.

f Caiff data ei gasglu a'i ddadansoddi mewn ffyrdd sy'n galluogi darparwyr i ddeall ac ymateb i anghenion eu corff myfyrwyr, gan hyrwyddo cydraddoldeb, amrywioldeb a chynhwysiant.

**Cwestiwn 12 - A yw Egwyddor 4 yn ei gwneud yn glir beth a ddisgwylir gan ddarparydd?**

**Cwestiwn 13 - A yw'r Arferion Allweddol o dan Egwyddor 4 yn ei gwneud yn glir sut y gall darparydd ddangos aliniad â'r Egwyddor?**

## Egwyddor 5

Newidiadau a wnaed o ddrafft Tachwedd 2023:

- Geiriad yr Egwyddor wedi'i addasu er eglurder.
- Arfer b wedi’i ddiwygio er eglurhad.
- Arfer d wedi’i ddiwygio i bwysleisio'r angen am hygyrchedd wrth gyfathrebu canlyniadau monitro a gwerthuso.
- Arfer e wedi'i symleiddio er eglurder.

**Drafft ymgynghori Ebrill 2024:**

### Egwyddor 5 - Monitro, gwerthuso a gwella'r ddarpariaeth

Mae darparwyr yn monitro ac yn adolygu eu darpariaeth yn rheolaidd, ynghyd â'r polisïau, prosesau ac arferion sylfaenol er mwyn sicrhau safonau academaidd a gwella ansawdd. Cymerir camau bwriadol i ymgysylltu â myfyrwyr, staff ac arbenigwyr allanol, a’u cynnwys mewn gweithgarwch monitro a gwerthuso. Mae deilliannau ac effaith y gweithgareddau hyn yn cael eu hystyried ar lefel y darparydd a'u cyfleu i'r corff llywodraethu er mwyn ysgogi adfyfyrio a gwelliant ar draws y darparydd.

**Arferion Allweddol**

a Mae darparwyr yn cytuno ar egwyddorion strategol ar gyfer monitro a gwerthuso er mwyn sicrhau bod prosesau'n cael eu gweithredu'n systematig a’u bod yn gyson.

b Mae'r dulliau ar gyfer monitro a gwerthuso gweithgareddau’n cael eu dogfennu i egluro eu nodau, amcanion, gweithredoedd a fwriadwyd a thargedau. Maent yn eglur ynghylch sut y cânt eu cynnal, natur y dystiolaeth (data) i'w hystyried a'r ffurf o adrodd, ynghyd â dangosyddion llwyddiant allweddol.

c Mae staff a myfyrwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau monitro a gwerthuso ac yn cael hyfforddiant a chymorth priodol i ymgymryd â hwy.

d Mae'r camau gweithredu a'r deilliannau o weithgareddau monitro a gwerthuso’n cael eu cyfleu mewn modd hygyrch i staff, myfyrwyr, y corff llywodraethu a rhanddeiliaid allanol.

e Mae gwelliannau sydd wedi'u rhoi ar waith o ganlyniad i fonitro a gwerthuso, yn eu tro, yn cael eu monitro a'u gwerthuso i sicrhau bod eu heffaith yn gadarnhaol ac yn parhau i fod yn addas i'r diben.

f Mae gweithgarwch monitro a gwerthuso yn hwyluso mewnwelediad darparwyr ac yn hyrwyddo cydraddoldeb, amrywioldeb a chynhwysiant.

g Caiff rhaglenni eu monitro a'u hadolygu'n rheolaidd gan gymheiriaid mewnol ac allanol, cyflogwyr a myfyrwyr, yn unol ag ymagwedd strategol y darparydd a'r cyrff proffesiynol perthnasol at ansawdd a safonau.

**Cwestiwn 14 - A yw Egwyddor 5 yn ei gwneud yn glir beth a ddisgwylir gan ddarparydd?**

**Cwestiwn 15 - A yw'r Arferion Allweddol o dan Egwyddor 5 yn ei gwneud yn glir sut y gall darparydd ddangos aliniad â'r Egwyddor?**

## Egwyddor 6

Newidiadau a wnaed o [ddrafft Tachwedd 2023]:

- Cafodd yr Egwyddor ei ddiwygio i'w wneud yn syml a chlir, ac i adlewyrchu'r gwahanol ffurfiau y gall adolygiad allanol eu cymryd, a'r gwahanol gyrff a allai wneud achrediad yn ofynnol.
- Diwygiwyd arfer a i adlewyrchu'r gwahanol ymagweddau posibl at adolygu allanol, ac i fynd i'r afael â statws adolygiad allanol yn y trefniadau rheoleiddio ar gyfer darparwyr yn Lloegr.
- Arfer b wedi'i ddiwygio i fod yn llai rhagnodol ac er eglurder.
- Arfer c wedi'i ddiwygio i adlewyrchu'r gwahanol fathau o adolygiadau.
- Arfer d wedi'i ddiwygio i adlewyrchu bod llawer o ddarparwyr yn gwerthfawrogi arbenigedd rhyngwladol mewn adolygiadau allanol.

**Drafft ymgynghori Ebrill 2024:**

### Egwyddor 6 - Ymwneud ag adolygu ac achredu allanol

Mae darparwyr yn ymwneud ag adolygiadau allanol i alluogi gwerthusiad allanol o weithrediad eu hymagwedd strategol at sicrhau safonau a gwella ansawdd. Mae adolygiadau'n golygu cyfranogiad gweithredol gan staff, myfyrwyr a chymheiriaid. Gall sefydliadau cynrychioli, asiantaethau neu gyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddiol (PSRB) sydd ag arbenigedd cydnabyddedig yn y sector ymgymryd â'r adolygiadau hyn, gan ddibynnu ar y ddarpariaeth sy'n cael ei hadolygu.

**Arferion Allweddol**

a Mae adolygiadau allanol, boed yn wirfoddol neu'n ofynnol dan fframweithiau ansawdd cenedlaethol, wedi'u hymgorffori yn ymagwedd strategol y darparydd ac maent yn alinio â gweithgarwch adolygu ansawdd a safonau mewnol.

b Mae darparwyr yn cydnabod y gall adolygu ac achredu allanol fod yn gatalydd ar gyfer gwelliant parhaus a strategol i brofiad dysgu myfyrwyr. Mae hefyd yn hyrwyddo adfyfyrio a gwerthuso ac yna rhoi'r camau gweithredu cysylltiedig ar waith.

c Mae darparwyr yn cydnabod ac yn cefnogi'r arbenigedd a'r adnoddau sydd eu hangen i gymryd rhan mewn adolygiad ac achrediad allanol.

d Mae darparwyr sy'n ymwneud ag adolygiadau allanol yn deall y cyd-destunau rheoleiddiol a deddfwriaethol cenedlaethol y DU y maent yn gweithredu ynddynt a'r gwahanol ddulliau, ffurfiau a ffocws a allai berthyn iddynt. Gall darparwyr ymgysylltu â chydweithwyr sydd ag arbenigedd rhyngwladol, yn ogystal â'r rhai sy'n gyfarwydd â gofynion y DU.

e Mae darparwyr yn deall y gofynion a'r broses ar gyfer adolygiadau allanol y gallai fod yn ofynnol gan reoleiddwyr mewn lleoliadau partneriaid darparu.

**Cwestiwn 16 - A yw Egwyddor 6 yn ei gwneud yn glir beth a ddisgwylir gan ddarparydd?**

**Cwestiwn 17 - A yw'r Arferion Allweddol o dan Egwyddor 6 yn ei gwneud yn glir sut y gall darparydd ddangos aliniad â'r Egwyddor?**

## Egwyddor 7

Newidiadau a wnaed o ddrafft Tachwedd 2023:

- Diwygiwyd yr Egwyddor er eglurder a symlrwydd.
- Arfer a wedi'i ddiwygio i adlewyrchu perthnasedd y Fframwaith Cymwysterau ar gyfer yr Ardal Addysg Uwch Ewropeaidd (QF-EHEA)
- Arfer c wedi'i ddiwygio er mwyn ei symleiddio a'i egluro.
- Arfer e wedi'i ychwanegu i adlewyrchu pwysigrwydd allanoldeb wrth gynllunio, datblygu, cymeradwyo ac addasu rhaglenni astudio.

**Drafft ymgynghori Ebrill 2024:**

### Egwyddor 7 - Cynllunio, datblygu, cymeradwyo ac addasu rhaglenni

Mae darparwyr yn cynllunio, datblygu, cymeradwyo ac addasu rhaglenni astudio er mwyn sicrhau bod ansawdd y ddarpariaeth a safonau academaidd y dyfarniadau yn gyson â'r fframwaith cymwysterau cenedlaethol perthnasol. Mae darparwyr yn sicrhau bod eu darpariaeth a lefel eu cymwysterau yn gymaradwy â'r rhai a gynigir ledled y DU a, lle bo'n berthnasol, y Fframwaith Cymwysterau ar gyfer yr Ardal Addysg Uwch Ewropeaidd.

**Arferion Allweddol**

a Mae pob rhaglen yn bodloni safonau academaidd sy'n gyson â fframweithiau cenedlaethol ac yn gymaradwy ar draws y DU, a, lle bo'n berthnasol, yn bodloni'r Fframwaith Cymwysterau ar gyfer yr Ardal Addysg Uwch Ewropeaidd.

b Cynhyrchir set ddiffiniol o ddogfennau o'r prosesau cynllunio, datblygu, cymeradwyo ac addasu; fe'u cedwir yn ddiogel ac maent yn gweithredu fel y brif ffynhonnell wybodaeth am bob rhaglen.

c Mae'r dyfarniad a dderbynnir, a sut mae deilliannau astudio'n cael eu cofnodi a'u hardystio, yn cael eu gwneud yn glir i'r holl randdeiliaid sy'n ymwneud ag addysgu, dysgu a gwerthuso'r rhaglen.

d Cyhoeddir polisïau a phrosesau sy'n cynorthwyo â chynllunio, datblygu, cymeradwyo, addasu ac adolygu rhaglenni ar wefan pob darparydd ac maent ar gael yn hawdd i randdeiliaid allweddol.

e Mae ymgysylltu a gwerthuso allanol yn rhan o'r broses gynllunio, datblygu, cymeradwyo ac addasu.

**Cwestiwn 18 - A yw Egwyddor 7 yn ei gwneud yn glir beth a ddisgwylir gan ddarparydd?**

**Cwestiwn 19 - A yw'r Arferion Allweddol o dan Egwyddor 7 yn ei gwneud yn glir sut y gall darparydd ddangos aliniad â'r Egwyddor?**

## Egwyddor 8

Newidiadau a wnaed o ddrafft Tachwedd 2023:

- Newidiwyd teitl yr Egwyddor i adlewyrchu ei ddiben yn well, ac addaswyd y geiriad manwl er eglurder.
- Arfer b wedi'i ddiwygio i hybu ymwybyddiaeth o'r gwahanol lefelau o risg sy'n gysylltiedig â phartneriaethau.
- Arfer c wedi'i ychwanegu i roi mwy o amlygrwydd i bwysigrwydd cytundebau ysgrifenedig.

**Drafft ymgynghori Ebrill 2024:**

### Egwyddor 8 - Gweithredu partneriaethau gyda sefydliadau eraill

Mae gan ddarparwyr a'u partneriaid drefniadau cymesur sydd â llywodraethiant effeithiol i sicrhau'r safonau academaidd a gwella ansawdd y rhaglenni a ddarperir mewn partneriaeth ag eraill. Mae sefydliadau sy'n ymwneud â threfniadau partneriaeth yn cytuno ac yn cyfathrebu cyfrifoldebau penodol y naill a'r llall mewn perthynas â chyflwyno, monitro, gwerthuso, sicrhau a gwella'r profiad dysgu.

**Arferion Allweddol**

a Lle cyflwynir darpariaeth academaidd trwy bartneriaeth, mae pob partner yn cytuno, yn deall, yn cyfathrebu ac yn cymryd cyfrifoldeb am gynnal safonau academaidd a gwella ansawdd.

b Mae darparwyr yn ymwybodol y bydd gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill yn cynnwys gwahanol lefelau o risg. Cynhelir prosesau diwydrwydd dyladwy yn unol ag ymagwedd pob darparydd at leihau risg, cynnal safonau academaidd a gwella ansawdd.

c Caiff cytundebau ysgrifenedig rhwng partneriaid eu llofnodi cyn dechrau rhaglen ac maent yn cwmpasu cylch bywyd y bartneriaeth, gan gynnwys manylion am ddod â phartneriaeth i ben yn gynnar.

d Mae darparwyr a'u partneriaid yn sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion rheoleiddiol a deddfwriaethol y gwledydd y maent yn gweithio ynddynt ac yn cynnal ymwybyddiaeth o'r cyd-destun diwylliannol y maent yn gweithredu ynddo.

e Mae darparwyr yn cadw cofnodion cywir a chyfredol o drefniadau partneriaeth sy'n destun cytundeb ffurfiol.

f Mae partneriaethau'n destun craffu parhaus sy'n cynnwys monitro a gwerthuso rheolaidd, yn ogystal ag adolygu cyfnodol i sicrhau ansawdd a hwyluso gwelliant.

**Cwestiwn 20 - A yw Egwyddor 8 yn ei gwneud yn glir beth a ddisgwylir gan ddarparydd?**

**Cwestiwn 21 - A yw'r Arferion Allweddol o dan Egwyddor 8 yn ei gwneud yn glir sut y gall darparydd ddangos aliniad â'r Egwyddor?**

### Egwyddor 9

Newidiadau a wnaed o ddrafft Tachwedd 2023:

- Diwygiwyd yr egwyddor er mwyn sicrhau cywirdeb o ran diben prosesau recriwtio, dethol a derbyn, ac er mwyn eglurder a symlrwydd.
- Arfer a wedi'i ddiwygio i gydnabod bod angen prosesau ychwanegol ar gyfer cydnabod dysgu blaenorol.
- Arfer e wedi'i ddiwygio i adlewyrchu pwysigrwydd dewis gwybodus.

**Drafft ymgynghori Ebrill 2024:**

#### Egwyddor 9 - Recriwtio, dethol a derbyn myfyrwyr

Mae darparwyr yn gweithredu prosesau recriwtio, dethol a derbyn sy'n dryloyw, yn deg ac yn gynhwysol. Mae darparwyr yn cynnal ac yn cyhoeddi gwybodaeth gywir, berthnasol a hygyrch am eu darpariaeth, gan alluogi myfyrwyr i wneud dewisiadau gwybodus am eu hastudiaethau a'u dyheadau ar gyfer y dyfodol.

**Arferion Allweddol**

a Mae polisïau a gweithdrefnau ar gyfer ymgeisio, recriwtio, dethol a derbyn ar gyfer rhaglenni yn ddibynadwy, yn deg, yn dryloyw ac yn hygyrch, gan gynnwys prosesau ar gyfer cydnabod dysgu blaenorol.

b Mae'r wybodaeth a ddarperir i ddarpar fyfyrwyr a'r rhai sy'n eu cynghori at ddibenion recriwtio ac ehangu mynediad yn eu cynorthwyo i wneud penderfyniadau gwybodus.

c Mae darparwyr yn bodloni eu rhwymedigaethau rheoleiddiol mewn perthynas â'r wybodaeth a gyflwynir amdanynt eu hunain a'u rhaglenni astudio.

d Mae staff, cynrychiolwyr myfyrwyr a phartneriaid allanol sy'n ymwneud â chynnal prosesau recriwtio, dethol, derbyn ac ehangu mynediad wedi'u hyfforddi'n briodol ac mae adnoddau digonol ar eu cyfer.

**e** Mae pob tîm sy'n ymwneud â'r prosesau ymgeisio, dethol a derbyn yn sicrhau bod gwybodaeth am daith yr ymgeisydd yn gyson ac yn glir. Mae elfennau penodol o'r broses ddethol wedi'u diffinio'n glir a chaiff unrhyw newidiadau i raglenni a all effeithio ar y broses o wneud penderfyniadau eu cyfathrebu'n gyflym ac yn gyson er mwyn galluogi unigolion i wneud dewis gwybodus.

**Cwestiwn 22 - A yw Egwyddor 9 yn ei gwneud yn glir beth a ddisgwylir gan ddarparydd?**

**Cwestiwn 23 - A yw'r Arferion Allweddol o dan Egwyddor 9 yn ei gwneud yn glir sut y gall darparydd ddangos aliniad â'r Egwyddor?**

## Egwyddor 10

Newidiadau a wnaed o ddrafft Tachwedd 2023:

- Diwygiwyd yr Egwyddor er mwyn symlrwydd ac i bwysleisio profiad dysgu o ansawdd uchel i fyfyrwyr yn ogystal â chyflawniad a dilyniant myfyrwyr.
- Arfer a wedi'i ddiwygio er eglurder.
- Arfer b wedi'i ailwampio er mwyn symlrwydd ac eglurder, ac i roi cydnabyddiaeth i wahanol lwybrau i mewn i ddysgu.
- Arfer d wedi'i ddiwygio i adlewyrchu'r potensial ar gyfer anghenion a gofynion penodol myfyrwyr.
- Arfer e wedi'i ddiwygio er mwyn eglurhau terminoleg o amgylch gweithgareddau y tu hwnt i'r cwricwlwm ffurfiol.

**Drafft ymgynghori Ebrill 2024:**

### Egwyddor 10 - Cynorthwyo myfyrwyr i gyflawni eu potensial

Mae darparwyr yn hwyluso fframwaith cymorth ar gyfer myfyrwyr sy'n eu galluogi i gael profiad dysgu o ansawdd uchel a chyflawni eu potensial wrth iddynt symud ymlaen yn eu hastudiaethau. Mae'r strwythur cymorth yn sail i'r daith ddysgu academaidd, bersonol a phroffesiynol, gan alluogi myfyrwyr i gydnabod a chyfleu eu cynnydd a'u cyflawniadau.

**Arferion Allweddol**

a Cynigir gwybodaeth hygyrch, berthnasol, gywir ac amserol i fyfyrwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill trwy gydol y daith ddysgu am y darparydd, y rhaglen astudio, cyfleoedd ehangach i ddatblygu ac argaeledd gwasanaethau cymorth.

b Cefnogir myfyrwyr ar adegau pontio allweddol ar hyd eu taith, gan fodloni eu hanghenion a'u gofynion penodol, a rhoddir cydnabyddiaeth i'w llwybrau unigol i mewn i ddysgu.

c Mae myfyrwyr, staff a'r rhai sy'n cynorthwyo dilyniant myfyrwyr yn ymwybodol o'r gwasanaethau a'r gweithgareddau academaidd, proffesiynol a bugeiliol parhaus sydd ar gael, ac anogir myfyrwyr i gael mynediad at y cyfleoedd hyn a chefnogaeth trwy gydol eu taith ddysgu.

d Mae gan staff gymwysterau priodol, a chânt hyfforddiant a chefnogaeth i gyflwyno dysgu a chymorth o ansawdd uchel i bob myfyriwr, gan gynnwys y rhai ag anghenion a gofynion penodol.

e Mae yna gydnabyddiaeth bod gweithgareddau a gynigir y tu allan i'r cwricwlwm ffurfiol yn fuddiol ar gyfer hybu ymdeimlad myfyrwyr o berthyn, yn ogystal â darparu cyfleoedd i fyfyrwyr ehangu eu sgiliau a'u cyflawniadau, gan ategu eu hastudiaethau ffurfiol.

**Cwestiwn 24 - A yw Egwyddor 10 yn ei gwneud yn glir beth a ddisgwylir gan ddarparydd?**

**Cwestiwn 25 - A yw'r Arferion Allweddol o dan Egwyddor 10 yn ei gwneud yn glir sut y gall darparydd ddangos aliniad â'r Egwyddor?**

## Egwyddor 11

Newidiadau a wnaed o [ddrafft Tachwedd 2023]:

- Teitl yr Egwyddor wedi'i symleiddio i adlewyrchu ei ddiben yn well.
- Yr Egwyddor wedi'i newid er mwyn cael mwy o eglurder. Mae diwygiadau pellach yn egluro gwerth uniondeb academaidd mewn addysgu, dysgu ac asesu.
- Arfer c wedi'i ddiwygio i gyfeirio at staff yn benodol.
- Arfer d wedi'i ddiwygio i adlewyrchu pwysigrwydd cyngor parhaus ynghylch uniondeb academaidd.
- Arfer e wedi'i ailwampio i gydnabod bod angen cymorth ar gyfer pontio effeithiol rhwng lefelau academaidd.
- Arfer f wedi'i ychwanegu i gydnabod pwysigrwydd asesu teg, dibynadwy, hygyrch a chynhwysol. Yn ogystal, rydym hefyd wedi tynnu sylw at wahanol opsiynau ar gyfer asesu sydd ar gael lle mae'n bosibl ac yn gynaliadwy i wneud hynny.
- Ychwanegwyd arfer g i bwysleisio pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth â myfyrwyr i sefydlu ymagweddau cydlynol at ymdrin â thechnolegau sy'n dod i'r amlwg sy'n effeithio ar addysgu, dysgu ac asesu, gyda Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol (TAC) yn enghraifft. Ychwanegwyd hyn mewn ymateb i geisiadau am fwy o bwyslais ar TAC.
- Ychwanegwyd arfer h i gydnabod gofynion penodol graddau ymchwil a phwysigrwydd ymchwil i lywio addysgu, dysgu ac asesu. Yn ystod cam blaenorol yr ymgynghoriad, codwyd pryderon ynghylch diffyg pwyslais canfyddedig ar ddarpariaeth graddau ymchwil fel Egwyddor benodol. Rydym wedi ymrwymo i ddarparu cyngor ar wahân i'r sector yn y maes hwn, a byddwn yn ymgynghori yn y dyfodol ar ffurf y cyngor hwn, ond gallwn gadarnhau bod y Côd Ansawdd yn cwmpasu graddau a addysgir a graddau ymchwil.

**Drafft ymgynghori Ebrill 2024:**

### Egwyddor 11 - Addysgu, dysgu ac asesu

Mae darparwyr yn hwyluso dull cydweithredol o lunio profiad dysgu sy'n galluogi myfyrwyr i gael profiad o ansawdd uchel a symud ymlaen trwy eu hastudiaethau.
Mae pob myfyriwr yn cael cymorth i ddatblygu ac arddangos sgiliau a chymwyseddau academaidd a phroffesiynol. Defnyddir amryw o ddulliau wrth asesu sy'n ymgorffori gwerthoedd uniondeb academaidd, gan gynhyrchu deilliannau sy'n gymaradwy ar draws y DU ac a gydnabyddir yn fyd-eang.

**Arferion Allweddol**

a Mae dysgu ac asesu yn alinio i sicrhau bod myfyrwyr yn gallu dangos eu potensial, gan adfyfyrio ar eu dysgu blaenorol, ac atgyfnerthu eu sgiliau a'u gwybodaeth.

b Mae myfyrwyr yn glir ynghylch y deilliannau dysgu modiwlaidd a fwriedir ynghyd â phwrpas asesu, a chânt eu galluogi i ddefnyddio adborth i gynorthwyo â dysgu pellach.

c Mae staff sy'n ymwneud â hwyluso dysgu a goruchwylio ymchwil yn meddu ar gymwysterau priodol, a chânt eu cefnogi a'u hyfforddi'n ddigonol i gyflwyno profiad dysgu o ansawdd uchel, yn ogystal â chael eu galluogi'n weithredol i wella eu harfer addysgu a goruchwylio.

d Mae myfyrwyr yn cael eu galluogi a'u hannog i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain ac i chwarae rhan weithredol wrth lunio a gwella'r broses ddysgu. Mae darparwyr yn cynnig cyngor ac arweiniad parhaus ynghylch uniondeb academaidd i sicrhau bod myfyrwyr a staff yn deall yr hyn a ddisgwylir ganddynt.

e Wrth i fyfyrwyr symud trwy eu taith ddysgu, cânt gyfle a chefnogaeth i bontio'n effeithiol rhwng lefelau academaidd, gan gydnabod y cynnydd y maent wedi'i wneud a'r camau y mae angen iddynt eu cymryd i gyflawni eu potensial.

f Mae darparwyr yn cynllunio asesiadau sy'n briodol, yn deg, yn ddibynadwy, yn hygyrch ac yn gynhwysol. Lle bo'n bosibl, ac yn gynaliadwy, cynigir opsiynau gwahanol i fyfyrwyr ar gyfer ymgymryd ag asesiadau i hyrwyddo hygyrchedd a chynhwysiant.

g Mae darparwyr yn gweithio mewn partneriaeth â staff a myfyrwyr i sefydlu ymagweddau cydlynol at dechnoleg mewn addysgu, dysgu ac asesu (e.e. Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol).

h Caiff graddau ymchwil eu cyflwyno mewn amgylcheddau cefnogol sy'n fanteisiol i ddysgu ac ymchwil, gyda threfniadau goruchwylio effeithiol. Caiff dysgu ac addysgu ar bob lefel eu llywio gan ymchwil a/neu ysgolheictod.

**Cwestiwn 26 - A yw Egwyddor 11 yn ei gwneud yn glir beth a ddisgwylir gan ddarparydd?**

**Cwestiwn 27 - A yw'r Arferion Allweddol o dan Egwyddor 11 yn ei gwneud yn glir sut y gall darparydd ddangos aliniad â'r Egwyddor?**

## Egwyddor 12

Newidiadau a wnaed o ddrafft Tachwedd 2023:

- Newid teitl yr Egwyddor i adlewyrchu ei ddiben yn well.
- Diwygio'r Egwyddor i adlewyrchu bod yr ystyriaethau ansawdd mewn pryderon, cwynion ac apeliadau yn canolbwyntio ar eu gweithrediad, hefyd mai cyfrifoldeb y darparydd yw mynegi prosesau i staff a myfyrwyr.
- Arfer b wedi'i ddiwygio i adlewyrchu pwysigrwydd eglurder ynghylch y prosesau yn ogystal â'r wybodaeth amdanynt.
- Arfer c wedi'i ddiwygio i amlygu'r angen i fodloni gofynion rhyngwladol lle bo'n berthnasol.

**Drafft ymgynghori Ebrill 2024:**

### Egwyddor 12 - Gweithredu prosesau ar gyfer pryderon, cwynion ac apeliadau

- Mae darparwyr yn gweithredu prosesau ar gyfer cwynion ac apeliadau sy'n gadarn, yn deg, yn dryloyw ac yn hygyrch, ac wedi'u mynegi'n glir i staff a myfyrwyr. Caiff polisïau a phrosesau ar gyfer pryderon, cwynion ac apeliadau eu hadolygu'n rheolaidd, a defnyddir y deilliannau i gynorthwyo â gwella'r ddarpariaeth a phrofiad y myfyriwr.

**Arferion Allweddol**

a Mae polisïau a phrosesau ar gyfer ymwneud â phryderon, cwynion ac apeliadau yn hygyrch, yn gadarn ac yn gynhwysol; maent hefyd yn galluogi datrysiad cynnar lle bynnag y bo modd, ac maent yn cynnwys gwybodaeth yn ymwneud â recriwtio, dethol a derbyn.

b Mae polisïau a gweithdrefnau sy'n ymwneud â phryderon, cwynion ac apeliadau, gan gynnwys gwybodaeth amdanynt, yn glir ac yn dryloyw i fyfyrwyr, y rhai sy'n eu cynghori a'r rhai sy'n gweithredu'r prosesau. Mae camau ffurfiol ac anffurfiol y prosesau wedi'u mynegi'n glir.

c Mae darparwyr yn bodloni gofynion cenedlaethol a (lle bo'n berthnasol) rhyngwladol cyrff allanol sy'n gyfrifol am glywed neu oruchwylio pryderon a chwynion.

d Mae camau gweithredu sy'n deillio o bryderon, cwynion ac apeliadau yn gymesur ac yn galluogi achosion i gael eu datrys cyn gynted â phosibl.

e Mae prosesau ar gyfer ymwneud â phryderon, cwynion ac apeliadau'n cael eu monitro a'u hadolygu i sicrhau eu bod yn hyrwyddo gwelliant ar draws y darparydd ac yn gweithredu fel y bwriadwyd hwy, er budd myfyrwyr a staff.

f Defnyddir canlyniadau pryderon, cwynion ac apeliadau i ddatblygu a gwella addysgu a dysgu, yn ogystal â phrofiad ehangach y myfyrwyr.

**Cwestiwn 28 - A yw Egwyddor 12 yn ei gwneud yn glir beth a ddisgwylir gan ddarparydd?**

**Cwestiwn 29 - A yw'r Arferion Allweddol o dan Egwyddor 12 yn ei gwneud yn glir sut y gall darparydd ddangos aliniad â'r Egwyddor?**

## Adran 5: Y Rhestr Termau a Sylwadau Pellach

Rydym wedi diwygio’r rhestr termau mewn ymateb i adborth a dderbyniwyd, gan gynnwys gan golegau a fydd yn defnyddio’r Côd Ansawdd fel rhan o’r fframweithiau trydyddol yng Nghymru a’r Alban, neu wrth weithredu mewn partneriaeth â chyrff dyfarnu graddau. Cydnabyddir y gall y cydweithwyr hynny ddefnyddio terminoleg wahanol ar hyn o bryd.

Rydym hefyd wedi diwygio'r diffiniadau ar gyfer uniondeb academaidd, gwelliant, cydraddoldeb, a thrydyddol mewn ymateb i ymgysylltu trwy gydol y broses ddatblygu.

Mae’r termau sydd wedi’u diwygio neu sy’n newydd i’r eirfa ers drafft Tachwedd 2023 i’w gweld isod – am yr eirfa lawn, gweler y drafft ymgynghori.

**Drafft ymgynghori Ebrill 2024:**

**Uniondeb Academaidd** - ymrwymiad i werthoedd sylfaenol gonestrwydd, ymddiriedaeth, tegwch, parch a chyfrifoldeb. Y gwrthwyneb i uniondeb academaidd yw arferion anfoesegol fel llên-ladrad, cydgynllwynio, twyllo trwy gontract neu gamymddwyn academaidd.

**Gwelliant** - y gwelliant bwriadol a systematig yn ansawdd y ddarpariaeth a'r ffyrdd y cefnogir dysgu myfyrwyr, gan gynnwys ymgysylltiad gweithredol â myfyrwyr a staff. Mae yna wahanol ddehongliadau ar gyfer gwelliant ar draws y DU gyda rhai o wledydd y DU yn meddu ar fframwaith rheoleiddio sy’n 'seiliedig ar welliant'.

**Cydraddoldeb** - mae pob unigolyn neu grŵp o bobl yn cael yr un adnoddau neu gyfleoedd, ond mae QAA o'r farn y dylai cydraddoldeb gynnwys y cysyniad o 'gyfiawnder' sy'n cydnabod bod gan bob person anghenion gwahanol ac felly dylid dyrannu adnoddau a chyfleoedd er mwyn cyrraedd canlyniad cyfartal.

**Safonau/safonau academaidd** - dyma'r safonau y mae cyrff dyfarnu graddau yn eu gosod ac yn eu cynnal ar gyfer dyfarnu credydau neu gymwysterau academaidd Mae cyrff dyfarnu graddau'n gyfrifol am ddiffinio eu safonau academaidd eu hunain trwy osod y marciau ar gyfer llwyddiant a phennu'r cynlluniau graddio/marcio ac unrhyw feini prawf ar gyfer dosbarthu cymwysterau sy'n gwahaniaethu rhwng lefelau cyrhaeddiad myfyrwyr uwchlaw ac islaw'r trothwy ar gyfer safonau academaidd. Mae'r safonau unigol hyn yn alinio â fframweithiau cymwysterau a chredydau cenedlaethol a/neu’r Fframwaith Cymwysterau ar gyfer yr Ardal Addysg Uwch Ewropeaidd.

**Addysg drydyddol** - pob addysg ôl-uwchradd sy'n cwmpasu addysg bellach ac uwch, gan gynnwys cymwysterau academaidd, galwedigaethol a phroffesiynol. Mae'r ffordd y caiff y term ei ddehongli’n amrywio rhwng gwledydd y DU - byddem yn cynghori darparwyr i wirio gwefannau eu cyllidwyr/rheolyddion neu'r canllawiau adolygu allanol perthnasol am ragor o wybodaeth. Wrth weithio gyda phartneriaid tramor, dylai darparwyr hefyd wirio'r diffiniad a ddefnyddir gan eu partner ar gyfer 'trydyddol', gan y gall amrywio mewn gwahanol wledydd.

**Cwestiwn 30: A yw'r eirfa yn ddefnyddiol i'ch helpu i ddeall termau allweddol a ddefnyddir yn y Cod Ansawdd?**

## Sylwadau pellach

**Cwestiwn 31 - A oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach i’w gwneud am fersiwn 2024 arfaethedig y Côd Ansawdd?**

Cyhoeddwyd - Dydd Llun, 8fed Ebrill 2024

© Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch 2024
Southgate House, Southgate Street, Caerloyw GL1 1UB
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 a SC037786

+44 (0)1452 557 000
www.qaa.ac.uk